



## Y Casglwr

**CYMDEITHAS BOB OWEN**

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

### SWYDDOGION

**Cadeirydd:**

E.WYN JAMES,

**Ysgrifennydd:**

MAREDUDD AP HUW  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth, Ceredigion.  
(01970) 623174

**Trysorydd:**

GWYNDAF ROBERTS,  
Cae'r Hafod, Maes Caled,  
Dolgellau LL40 1UF

**Golygydd:**

MEL WILLIAMS  
Tanycastell, Llanuwchllyn,  
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA  
(01678) 540652  
e-bost: tanycastell@yahoo.com

## CYNNWYS

|   | Tud. |
|---|------|
| Llew Llwyfro a Llewelyn Parri . . . . . | 1    |
| Golygyddol . . . . .                    | 2    |
| Syr John Gardner Wilkinson . . . . .    | 3    |
| Pwy oedd Penllyn...? . . . . .          | 4    |
| Joseph Banks a David Samwell . . . . .  | 7    |
| Yr Entrepreneur o'r Pale . . . . .      | 9    |
| John Chicago . . . . .                  | 11   |
| Delweddau'r Diwygwyr . . . . .          | 12   |
| William Bulkeley a'i gylch . . . . .    | 15   |
| O Blas i Blas . . . . .                 | 17   |
| Teymladdwr . . . . .                    | 19   |
| At y Golygydd . . . . .                 | 21   |

### Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd  
erbyn Medi 24

### GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau  
llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn  
Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.  
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â  
Miss Anne K. Tili (01970) 920235

# Golygyddol

**D**yma ni eto ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol arall. Mae'r chwe mis olaf wedi bod yn hynod ddiddorol i'r Gymdeithas. Ddiwedd mis Ionawr cafwyd gwledd o ffilmiau lleol, ac ymweliad â thrysorau'r Llyfrgell Genedlaethol, ac yn Chwefror bu ychydig ohonom ni yn ffodus i ddilyn camre Daniel Owen yn yr Wyddgrug o dan arweiniad deheug Phillip Lloyd.

### Y Diwrnod Agored

Bu'r Diwrnod Agored yn llwyddiant ysgubol, gyda hanner cant o aelodau yn ymgasglu yng Ngheltica, a chael gwledd yng ngofal y Dr Dafydd Glyn Jones. Y fonesig Buddug Medi, y Bonwr Don Treharne a Dyfed Evans. I'r rhai na fu'n ffodus i fod yn bresennol, bydd eu darlithoedd yn ymddangos yn Y Casglwr maes o law.

### Y Cyfarfod Blynyddol

Gan fod cyn lleied o aelodau yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol ar faes yr Eisteddfod oherwydd amryfal resymau, penderfynodd y Pwyllgor arbrofi, a chynnal y Cyfarfod Blynyddol ar adeg mwy cyfleus. Felly, dewiswyd Celtica fel man cyfarfod, a chafwyd Cyfarfod Blynyddol hynod lwyddiannus yn y prynhawn o dan gadeiryddiaeth y Dr. E. Wyn James. Etholwyd nifer o aelodau newydd ar y pwyllgor, sef, J.Elwyn Hughes, o Fethel, Caernarfon, Angharad Mair Jones, o Gaernarfon, Cyril Evans, o Aberystwyth, a Gethin Rhys. Wedi nifer o flynyddoedd fel Ysgrifennydd, datganodd Gwyn Tudur ei fod am roi gorau i'r swydd. Bu ynddi am ddeuddeg mlynedd, a phob amser yn gefn i'r mudiad a'i holl weithgareddau. Datganodd y byddai yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd er lles y Gymdeithas yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch iddo am ei waith di-flino

ar hyd y blynyddoedd.

Rydym yn ffodus, fodd bynnag, fod y Dr Maredudd ap Huw wedi cytuno i ysgwyddo'r baich yr ysgrifenyddiaeth, ac mae ein diolch iddo yn fawr. Cytunodd y Dr. E.Wyn James, hefyd, i aros yn ei swydd am flwyddyn arall.

### Diwydrwydd y Trysorydd

Mae'r Trysorydd wedi bod yn hynod o weithgar ac wedi llwyddo i dderbyn nifer fawr o'r ffurflenni Rhodd Gymorth yn ôl. Ond mae rhai cannoedd o'n haelodau yn methu gweld gwerth i'w dychwelyd. Mae pob un ffurflen yn golygu y byddai'r Gymdeithas ar ei hennill o £1.50 y pen. Does dim rhaid i'r aelod dalu yr un ddimai goch: yr unig beth yr ydym ei angen yw'r ffurflen wedi ei harwyddo, a'i dychwelyd.

Dymuniad y Trysorydd, hefyd, yw cael y rhan fwyaf o'r aelodau i dalu drwy archeb banc. Bellach, mae tua hanner o'r aelodau wedi cytuno. Os ydych yn talu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn, does dim problem. Ond am y gweddill, mae'n golygu amser ac arian i yrru llythyrau, a hynny fwy nag unwaith yn aml, gan nad yw rhai aelodau hyd yn oed yn ateb.

### Aelodaeth

Penderfyniad y Pwyllgor, felly, yw y dylid dileu aelodaeth unigolyn os ydyw wedi methu tâl blwyddyn, ac heb ymateb ar ôl derbyn llythyr atgoffa. Felly, wnewch chi eich gorau i dalu eich dyledion, os gwelwch yn dda? I'r rhai sy'n talu drwy'r Banc, nodir AB wrth y cyfeiriad ar yr amlen. Os nad oes, yna dylech gysylltu â ni er mwyn trafod yr aelodaeth.

Hoffwn i ddiolch i'r holl aelodau sy'n dangos gwir ddiddordeb yn y Gymdeithas ac i'r holl gyfranwyr. Cofiwch alw i mewn i'r babel ar faes yr Eisteddfod.

## SIOP LYFRAU R HEN BOST

45 Stryd Fawr,  
Blaenau Ffestiniog,  
Ffôn: (01766) 831802

Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn  
Eisteddfod Y Faenol.

Bydd croeso i gyfeillion hen a newydd  
yn y stondin ar y Maes.